CYNGOR AR SUT I WNEUD CAIS

- Darllenwch y fanyleb person, gan gasglu enghreifftiau a'u nodi yn ogystal â'r holl bethau rydych wedi eu gwneud yn dda yn eich swydd, rolau gwirfoddoli neu addysg.
- Nodwch yr hyn rydych wedi'i gyflawni, yr hyn a wnaethoch, pa sgiliau a mathau o ymddygiad y gwnaethoch eu dangos.
- Dewiswch eich enghreifftiau mwyaf pwerus. Pa rai oedd y sefyllfaoedd mwyaf anodd/heriol?
- Cyfeiriwch at bob pwynt yn y Fanyleb Person ac ymdrin ag ef yn ei dro, gan ddangos tystiolaeth o'r sgiliau, profiad a gwybodaeth sydd gennych ym mhob maes drwy roi enghreifftiau ymarferol o'ch gallu.
- Yn ddelfrydol defnyddiwch dechneg STAR (Sefyllfa, Tasg, Cam Gweithredu, Canlyniad)
- Ceisiwch fod mor fanwl â phosibl ac eglurwch pa sgiliau a phrofiad sydd gennych a beth y gallwch ei gynnig i'r rôl.
- Peidiwch â defnyddio unrhyw jargon na thybio bod y panel llunio rhestr fer yn gwybod unrhyw beth amdanoch.
- Mae'n bwysig eich bod yn defnyddio 'rwyf' nid 'rydym'. Mae angen i chi ddweud wrthym beth rydych wedi'i wneud a dangos yr effaith rydych wedi'i chael.
- Eglurwch eich atebion gan roi enghreifftiau penodol. Nid yw datganiadau yn ddefnyddiol ac nid ydynt yn dangos eich gallu na'ch addasrwydd i gyflawni'r rôl, e.e. nid yw 'Rwyf yn gallu gweithio'n arbennig o dda mewn tîm' yn dangos sut rydych yn gweithio'n effeithiol gydag eraill.
- Ceisiwch ddefnyddio'r stad weithredol mewn ffordd glir ac effeithiol. Mae ysgrifennu yn y gorffennol hefyd yn ddefnyddiol oherwydd bydd yn rhoi'r argraff i ni eich bod wedi cwblhau neu gyflawni eich nodau.
- Cadwch o fewn y cyfrif geiriau

- Dylech ganiatáu digon o amser. Mae cais da yn cymryd diwrnodau ac nid oriau i'w gwblhau.